CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
Cadeirydd: Gari B Jones
Nos Fawrth Ionawr 7fed 2025 am 7.30 y.h.

# Cofnodion (119)

Ar gychwyn y cyfarfod cydymdeimlwyd gyda'r Cyng. Gerallt Jones yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Gerallt Jones
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gethin Pyrs, Alun Owen, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda - neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Rhagfyr** cynigiwyd yn gywir gan GP gydag ER yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:**
   5.1.1. Maes Parcio a Sgubor Rin – ar ôl trafodaeth cytunwyd i ail hysbysu fod y safle ar werth ac os oes diddordeb i gysylltu gyda'r clerc erbyn 15fed Ionawr 2025 ac yna bydd modd trefnu cyfarfod gyda'r rhai sydd a diddordeb.
6. **Gohebiaeth:**
   a. Pwyllgor Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol – gofyn am gyfraniad tuag at lwyfannu'r treialon. Penderfynwyd gadael y penderfyniad tan y Pwyllgor Blynyddol.
7. F**furflen Flynyddol 2022 -23 a 23-24**
   Derbyniwyd Datganiad cyfrifyddu 2022-23 a 23-24 yn ôl gan yr Archwilwyr allanol
   **Barn archwilio – Diamod**
   *'Ar sail fy archwiliad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw i roi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol hon'*
   *M**aterion ac argymhellion eraill:***
   *Rwy'n tynnu sylw'r Cyngor at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r Cyngor fynd i'r afael a hwy:*
   ***Asedau Sefydlog:***
   *Mae'r Cyngor yn adrodd am werth Bil asedau sefydlog ar 31ain Mawrth 23 a 24 ond yn yswirio lloches bysiau a diffibriliwr.*
   *Rydym yn argymell y dylid cynnwys gwerth y lloches bysiau a'r diffibriliwr yn Llinell 12 y Datganiad Cyfrifeg.*
   Ffurflenni Blynyddol 2022-23 23-24 wedi ei derbyn ar gynnig AO gydag ER yn eilio ac oll o'r Cynghorwyr yn ei cymeradwyo.
8. **Monitro'r Gyllideb:**
   i) Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
   ii) Edrychwyd dros y fantolen banc a'i derbyn yn gyflawn.
9. **Ffurflen y Gyllideb 2025-26:**
   9.1.1. Ar ôl edrych dros y fantolen cytunwyd bod angen rhai newidiadau iddi cyn ei derbyn a'i Cymeradwy.

10. **Cais Cynllunio:**

10.1. Cyfeirnod 0/52187

: Ymgeisydd Mr Huw Roberts

Cynllun Storfa Gwrtaith Sych Chladdfa Silwair Arfaethedig

Safle Plas Iolyn, Rhydlydan, Pentrefoelas

Ni chafwyd gwrthwynebiad na sylwadau yn ymwneud a'r Cais. Cytunwyd yn unfrydol cefnogi'r cais.

11. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwenno Ellis**: crynodeb o adroddiad y Cyng. Sirol –

*Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned 21.01.25 – cais i adael i Berwyn Jones wybod os oes gennych unrhyw beth penodol yr hoffech ei drafod ar yr agenda.*

*Cartrefi Conwy – wedi cael cyfarfod cyn y Nadolig efo uwch swyddogion Cartrefi Conwy a rheolwr tai CBSC. Bydd arwydd 'Ar Osod' yn mynd ar y 5 annedd gwag yn Uwchaled yn fuan a byddaf yn rhannu gwybodaeth ar Facebook a phosteri. Bydd hawl gan unrhyw un lleol i ymgeisio am yr aneddau. Cartrefi Conwy fydd yn penderfynu pwy fydd yn cael rhentu'r tŷ. Os na fydd diddordeb, bydd y tai/byngalos yn cael eu gwerthu gan fod nifer ohonynt wedi bod yn wag ers rhai misoedd.*

*Llyfrgell Cymunedol Uwchaled - bydd oriau agor y Llyfrgell yn lleihau o fis Ebrill. Rwyf wedi pwyso ar Adran Gyllid y Sir na ddylent ofyn i'r tri Chyngor Cymuned arall am fwy o gyfraniad yn dilyn penderfyniad Cyngor Cymuned Pentrefoelas i atal eu cyfraniad. Ni fyddai hynny'n deg gan fod Llyfrgell Cymunedol yn cael ei ddefnyddio gan bobl o'r pedair Cymuned.*

12. **Unrhyw fater arall**:

12.1. Llwybr at Fynwent Newydd yr Eglwys – Cwyn bod dŵr ar y llwybr a bod yn amhosib i gerbyd fynd at y fynwent os bydd angen. Cytunwyd i edrych i mewn i'r mater.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** nos Fawrth Chwefror 4ydd 2025

Arwyddwyd________________________________ Dyddiad 04.02.25

Cadeirydd